ALUN.

# FFERM A THYDDYN

RHIF 51 CALAN MAI 2013 PRIS £3







Hufenfa Llangefni (uchod) a chonfoi o danceri o Langefni'n croesi Pont Menai (o: *The Milk Marketing Board*, RA Pepperall (1948)

# – Atgofion am Gontractio –

## gan Alun Lewis, Gallt y llan, Penegoes



*Olwern Lewis (Oli) a Huw Thomas gyda'r tractorau, Fferguson diesel 1956, Marshall Model M, Massey Harris Drill, Ferguson TE20 (petrol) gyda Weathershields cab*

Mi gychwynnais aredig pan oeddwn ryw 11 oed yma yng Ngallt y llan, Penegoes, sydd ryw filltir i fyny Dyffryn Dyfi o Fachynlleth. Bristol Crawler oedd y tractor – un bychan, *toy*, fel 'tae, ond wedi ei gerio yn ddigon isel i dynnu arad tair cwys. Rwy'n cofio gyrru'r Bristol bach i fyny'r allt heibio Ysgol Aberhosan, tua 1945, a minnau ryw 12 oed. Pwy ddaeth i'r golwg ac at ymyl y ffens haearn oedd rownd buarth yr Ysgol ond Miss Micah yr Ysgolfeistres. Dyma hi'n cwyno wrth fy nhad, Richard William Lewis, nad oeddwn i fod i yrru tractor ar y ffordd fawr. Yntau yn ei hateb: "Drycha di ar ôl be sy' y tu ôl i'r ffens yne ac mi 'drycha i ar ôl be sy' y tu yma.'

**Lladd moch, gwaith gofaint a thynnu dannedd**

Ffermwyr a chontractwyr oedd 'nhaid (dros ganrif yn ôl bellach), 'nhad, mrawd a minnau a'r mab Philip ar f'ôl. Gallai 'nhad droi ei law at sawl math o waith, oedd yn ddefnyddiol iawn pan oedd angen trwsio neu addasu offer. Mi fydde'n beirniadu cystadlaethau troi'r tir a phlygu shetin mewn sioeau lleol, yn berchen dyrnwr ac yn contractio i aredig a thrin y tir, torri a belio gwair a thorri ŷd efo beindar. Roedd hefyd yn gigydd da ac yn mynd o gwmpas y fro i ladd neu dorri ar foch ac ambell eidion. Bydde'n mynd i hyd at chwech o lefydd y dydd ddechrau'r gaeaf i ladd mochyn.

Roedd yn saer coed a hefyd yn ofaint, yn pedoli ceffyle, trwsio offer haearn, cylchu olwynion ayyb, ond anaml y mentrai wneud un o swyddi'r gofaint sef tynnu dannedd pobl. Roedd hynny yn rhywbeth y bydde gof llawn amser yn ei wneud yn gyffredin oherwydd mi fydde ganddo ddewis da o efeiliau at ei waith ac yn gwybod sut i'w defnyddio. Ac os nad gefel, mi fydde rhoi llinyn am ddant rhydd a phlwc sydyn iddo yn gwneud y job yn iawn.

Roedd gan William Jones, Efail Abercarrog dric da i dynnu sylw rhywun nerfus neu ofnus oddi ar y tynnu dant. Bydde'n clymu llinyn am y dant a rhoi'r pen arall yn sownd wrth yr einion. Yna sgwrsio, tra ar yr un pryd yn poethi darn haearn yn y tân. Yn sydyn gweiddi rhybudd a swingio'r haearn chwilboeth heibio wyneb y dioddefydd gan beri i hwnnw dynnu ei ben yn ôl mewn dychryn a rhoi plwc sydyn nes bydde'r dant allan yn daclus.

Mi fydde deintyddion proffesiynol yn yr ardal hefyd. Un a ddeuai y ffordd hyn oedd Niclas y Glais, gŵr addfwyn a difyr iawn ei sgwrs. Fe dynnodd ddant i sawl un ar ochr y ffordd pan fydde ar ei deithiau. Byddai'n dod i gynnal clinic yn un o'r tai ym Mhenegoes ac mi

fûm yno sawl gwaith yn cael triniaeth. Roeddwn yn gwybod pryd y bydde'n cyrraedd o Aberystwyth yn ôl mŵg neu chwiban y trên. Roedd y trên yn gaffaeliad mawr os nad oedd watsh gennych – y trên 11.30 neu 12.30 yn arwydd i'w hel hi adre am ginio a'r trên 7.00 ei bod yn amser swper.

Un castiog oedd fy nhad. Pan fydde'n glawio roedd digon o waith yn yr efail gartref. Weithiau byddai'n poeri ar yr einion a dal haearn poeth uwch ei ben. Yna gostwng yr haearn yn sydyn a'i daro'r efo morthwyl nes bydde'r poer yn 'ffrwydro' efo clec fawr bron cystal â gwn 12-bore. Mi wnaeth hynny un tro pan oedd carcharor rhyfel Almaenig yma, Wanw Sckanler, fydde'n gweithio yma amser hynny, heb feddwl bod clec gwn yn golygu rhywbeth llawer mwy iddo fo. Rhedodd Wanw allan o'r efail, a tharo'i ben rownd y drws ymhen ychydig funudau a gofyn: *'Vat happened Boss?'*

Talu ar ddiwedd tymor, Glanmai neu Glangaea, fydde llawer o ffermwyr. Ond, yn ôl fy nhad, yn y 1930au pan oedd arian yn brin, bydde ambell un yn dweud: 'Ty'd draw i bigo ŵyn'. Mi fydde hynny'n dâl neu'n gyfraniad am waith yn lle arian.

**Gwaith drwy'r flwyddyn**

Y gwaith mwya dros y gaea, o tua mis Hydref tan o leiaf diwedd Ionawr fyddai dyrnu (cewch hanes canlyn y dyrnwr yn Nyffryn Dyfi a gogledd Sir Aberteifi yn *Fferm a Thyddyn* 49, 2012). Yn dilyn hynny troi'r tir, rhwng diwedd Mawrth a diwedd Mai, a theilo, ym mis Ebrill yn bennaf, fydde'r gwaith mwyaf – byddem yn mynd i yn agos i ddau ddwsin o ffermydd yn yr ardal. Byddem hefyd yn disgio a rhipio (rhesio) at datws, eto yn Ebrill, a chwalu llwch haearn (*basic slag*) a llyfnu a hau ym mis Mai.

Wedyn, o tua canol Mehefin, byddem ar ein pennau i'r cynhaeaf gwair oedd yn golygu rhywfaint o waith torri, ond belio yn bennaf, hyd tua canol Awst. Yna'n syth at dorri'r ŷd efo dau feindar hyd tua canol Medi pryd bydde rhywfaint o fwlch i wneud pethau eraill, fel cario anifeiliaid i'r Sêl, cyn y deuai'n dymor dyrnu unwaith eto ganol Hydref.



*Byddwn wrth fy modd yn troi. Yma, cwysi yn Cae Llawr.*

**Troi, llyfnu a hau**

Wedi 'madael yr Ysgol yn 1949 dechreuais fynd o gwmpas ffermydd i droi efo arad ddwy gwys ac og newydd i lyfnu. Roedd rhaid bod yn daclus iawn wrth aredig yn y dyddiau hynny am y bydde pobl oes y ceffyle yn barticiwlar iawn am safon y gwaith. Roeddent wedi arfer efo cwysi oedd yn gorwedd yn berffaith ar ei gilydd i dderbyn yr had yn daclus. Byddai rhai yn fy nilyn efo rhaw i dacluso ac i gau unrhyw fylchau rhag i'r had ddisgyn drwodd i waelod y gwys.

Un tro roeddwn yn aredig efo arad deugwys yn Penbryn, Penegoes. Roedd Robert Jones yn ddyn taclus iawn ac yn eitha ffyslyd i gael y cwysi'n ddeche. Pan es i nôl cinio mi sylwais bod eidion Hereford yn y ffalt, oedd wedi ei droi allan o un o'r beudai i moyn dŵr, a defaid yn tyfu ar ei gorff o, yn cynnwys un ddyfaden fawr maint pelen golf ar ei fol o. Dywedodd Robert Jones ei fod am fynd i weld Mrs Evans, Hirddol i geisio gwellhad i'r eidion. Roedd hi yn ddynes ffeind iawn ac yn arbenigwraig ar y meddyginiaethau traddodiadol hen ffasiwn i wella anhwylderau ar ddyn ac anifail.

Mi fydde'n gwneud eliau o bob math a bydde rhai oedd yn diodde o iselder ysbryd yn mynd ati i fesur yr ede wlân, oedd yn hen ddull o wella'r cyflwr hwnnw. Ei chyngor yn achos yr eidion coch oedd: 'Cer adre a chyfra nhw, a phob un y cyfri di mi ânt'. Roeddwn yn f'ôl yn Penbryn ymhen ryw bythefnos ac, yn rhyfeddol, roedd y defaid wedi mynd, heblaw am un neu ddwy o gwmpas y glust. Cyfaddefodd Robert Jones nad oedd wedi cyfri y rheiny.

Roedd yr og newydd yn plygu at ei gilydd yn gyfleus pan oedd angen ei symud o un lle i'r llall a phan es â hi i lyfnu i Gaeheulon at Hywel Lewis, oedd yn dipyn o gymeriad, ei ddisgrifiad o ohoni oedd: 'Ew, mae hon fel eroplên'. Roedd Hywel am hau â llaw o lestr ac roedd am i mi ei ddilyn efo'r og i gladdu'r hadau. Ond 'dwi ddim yn meddwl ei fod o wedi gwerthfawrogi pa mor gyflym y gallai'r tractor a'r og weithio. Ar y dechre roedd o'n

mynd yn hamddenol ac yn hau ag un llaw. Ond ymhen sbel, roedd yn ddoniol iawn ei weld wedi cyflymu yn arw, yn hau â dwy law, ei het tua nôl – arwydd ei fod o ddifri – a minnau yn dynn wrth ei sodlau efo'r tractor a'r og. Yn y tŷ wedyn amser cinio dyma fo'n dweud: 'Mi fydd Alun bach 'ma wedi fy lladd i.'

Pan oeddwn yn Hirddol un tro yn troi tir rhedyn (mae yn gae glân heddiw) efo Prairie Buster 16" un gwys mi gefais baced o sigarets Players Weights yn anrheg gan Mrs Evans. Roeddwn braidd yn ifanc i smocio ond fe'u cymerais, a chael tân ar un wrth gychwyn am y ffridd. Ond am nad oedd gen i fatsus, dyma danio un arall o'r stwmp. Roedd hynny yn ormod oherwydd mi ddechreuodd Penegoes a gweddill y wlad o'm cwmpas droi am fy mhen! Mi fûm yn sâl a gorfod imi eistedd ar y clawdd am dros awr i ddod at fy hun. Smociais i fawr ddim byth wedyn!

Yn 1954 roedd dipyn o waith troi, ar tua 18 o ffermydd i gyd a hefyd disgio, chwalu tail a rhipio tatws. Weithiau mi fydde raid rhipio tatws ar y Sadwrn am mai dyna oedd fwya cyfleus i bobl y dre oedd yn cael plannu eu rhip ar dir y fferm.

Dyma gofnodion trin y tir o lyfr cyfrifon fy nhad am waith yn 1956-57. Y prisiau arferol oedd 15/- yr awr am droi, disgio a llyfnu. Mam fydde'n gwneud y gwaith cofnodi ac yn Saesneg am mai dyna iaith y cyfrifydd:

***E Thomas , Hirddol:***
*March 4th, Ploughing rough land, 6½ hrs*
*May 4th, Ploughing rough land, 2 hrs*
*May 4th, Disging, 3½ hrs*
*May 25 – 29th, Ploughing styble, 19 hrs*

***Jones Rhiwgriafol:***
*March 28th – 30th, Ploughing grassland, 16hrs*
*April 2nd 3d 4th, Ploughing " , 26 hrs*

***Evans Tynohir**, Ploughing grassland, March 25th – 27th, 18hrs*

***Jones. Maesperthi:***
*April 10th, Ploughing, 3½ hrs*
*April 19th – 20th, Ploughing, 9 hrs*
*May 25th – 28th, Ploughing, 16 hrs*

***Newlands Home**, Ploughing, April 25th, 1 hour*

***Owen Pengeulan**, Disging, April 6th, 8½ hrs*

***E Pugh Tymawr**, Disging, April 9th, 7 hrs*

***E Roberts. Penrhiwlas**, Disging, April 16th, 3½ hrs*

***JD Pugh, Maesllwyni**, Ridging, April 19th – 22nd 3 hrs*

***E Lewis, Cefnparhedyn**, Ridging, April 19th – 23d, 2½ hrs*

***Fenwick, Llynlloedd**, Ridging, April 27, May 2nd, 3½ hrs*

***Miss M Jones Croeslyn:***
*April 22nd, Ploughing grassland, 6½ hrs*
*April 24th, Ploughing grassland, 8 hrs 2 tractors*
*April 25th, Ploughing grassland, 4 hrs 2 tractors*
*April 29th, Disging, 6 hrs*
*May 3d, Sowing and harrowing, 10 hrs*
*June 11th – 12th, Ploughing, 10 hrs*

***Williams Caelloi:***
*April 26th, Ploughing, 2 hrs*
*May 4th, Planting potatoes, 1½ hrs*
*May 6th, Sowing & Harrowing, 1½ hrs*

***HP Jones Caerseddfan:***
*April 30th, Ploughing single furrow deepacre, 8½ hrs*
*May 1st -3d, Ploughing " " , 17½ hrs*
*May 7th, Disging, 7½ hrs*

***D Parry Dolguog Farm:***
*May 8th, Ploughing, 8½ hrs*
*May 10th, Ploughing, 7½ hrs, 2 tractors*
*May 11th – 13th, Ploughing, 11½ hrs*
*May 23d, Disging and rolling with crawler, 7 hrs*
*May 24th, " " with tractor, 8½ hrs*

***Lloyd Tanllan:***
*May 27th – 28th, Ploughing, 12 hrs*
*June 4th, Disging, 5½ hrs*

***Jones Rhiwgriafol:***
*June 5th, Disging, 8½ hrs*
*June 11th, Disging, 8½ hrs*

***Wigley Rhosdyrnog:***
*May 14th, Ploughing, 7½ hrs*
*May 21st – 22nd, Ploughing, 15 hrs*
*May 23d, Ploughing, 6½ hrs*

***Owen Penygeulan:** May 29th, Disging, 8 hrs*

***Parry Glanfechan**, work done at Penrhyn:*
*May 30th, Ploughing stubble, 2 tractors, 10 hrs each*

**Jones Llawr:**
*May 17th, Ploughing – 3 hrs*
*June 7th – 8th, Ploughing – 8 hrs*
*June 10th – 11th, Rowling and Sowing and Harrowing – 10 hrs*

**Teilo a hau llwch haearn**

Ddiwedd y 1940au, cyn inni gael chwalwr tail, roedd 'nhad wedi gwneud dau drelar pwrpasol ar gyfer cario tail i'r cae. Roedd blaen y trwmbal yn codi 'ar y frain' fel d'wedai 'nhad,

oedd yn cyfateb i godi ar y frân yn y drol a cheffyl. Y gwahaniaeth mawr yma oedd bod y trelars, y tu ôl i dractor, yn gallu cario llwyth tipyn mwy na throl ac mi fydde cael y trwmbal yn gogwyddo tua'n ôl fel hyn yn ei gwneud yn llawer haws i dynnu'r tail allan gyda caff yn dyrrau bychain yn y cae i'w chwalu wedyn â fforch. Mi fydde'r ddau drelar ar waith – un, efo dau ddyn yn ei lwytho o'r domen ar y ffald tra bydde'r llall yn dadlwytho yn y cae. Y fi fydde'n gyrru'r tractor yn y cyfnod hwn am mai ifanc oeddwn ac un o weision 'nhad, Richard William Jones neu Richard William Davies (cefnder i mi) yn dadlwytho.

Ond mi oedd yne waith dysgu sut i weithio'r offer. Cyn imi gyfarwyddo'n iawn efo'r Marshall mi gefais row gan fy nhad am symud yn rhy sydyn – rhoi plwc ar y clytsh nes i'r cwbwl lithro allan efo'i gilydd ar y cae!

Y pris godwyd am deilo a hau llwch haearn oedd 15/- yr awr.

*Wigley Broneirian, Machynlleth:*
*March 2nd, 1 load manure from Abergwydol to Machynlleth*
*April 18th, 1 load to Tynywern and 2 loads to Mach from Abergwydrol*

*Newlands Home, March 2nd, Hauling manure from County School to Newlands, 3 hrs*

*E Thomas, Hirddol:*
*April 13th, Hauling manure, 6½ hrs*

*Jones Maesperthi:*
*April 16th, Hauling manure, 7 hrs (1957)*
*April 30th, Hauling manure, 7½ hrs*

*Miss M Jones Croeslyn:*
*May 1st, Muck spreading, 6½ hrs*
*May 2nd, Spreading slag, 6 hrs*
*May 31st, Hauling manure, 7 hrs*
*May 11th, Hauling slag and stakes, 3½ hrs*

*Williams Caelloi:*
*April 24th, Carting manure, 5½ hrs, 2 men*
*May 4th, 1 load slag*

***Douglas Evans**, muck spreading, April 26th, 3 hrs*


*E Jones Bwlchgarw:*
*April 26th, Muck spreading, 5 hrs*
*June 12th, Drilling slag, 2½ hrs*

**Torri a belio gwair**

Yn y 1950au ceir rhestrau hir o ddyddiadau torri gwair rhwng dechrau Mehefin a diwedd Gorffennaf/ ddechrau Awst, er y gallai rhai orfod aros tan ddiwedd Awst os oedd yn dymor hwyr. Ffergi bach efo'r injan dorri gwair ar heidrolic fydde'n gwneud y gwaith. Roedd hynny'n llawer mwy hwylus inni na'r math o injan oedd wedi ei haddasu o oes y ceffyle, fydde'n cael ei thynnu y tu ôl i'r tractor. Y pris godwyd fydde £1 yr awr.



*Alun Lewis a'r ci (Walis) a Huw Thomas y gwas o Benegoes*




*Alun a'r Jones MK4 yn 1959*

Mi fydde rhyw fath o gylchdaith gennym er y gallai hynny amrywio yn arw o flwyddyn i flwyddyn yn ôl y ffermydd eu hunain yn ogystal â'r drefn y byddem yn ymweld â nhw. Rywbeth fel hyn fel arfer: ***Bryntudur, Llawr, Llwyn, Maesperthi, Hirddol***, tir gan ***Defi Brown*** ac ***R Micah*** ger tref Machynlleth, ***Fronwen, Dolguog, Rhiwlwyfen, Bwlch*** (roedd 13 giât i'w hagor i gyrraedd yno!), ***Bwlchcroesfan, Ogo fach, Glandyfi, Maesllwyni, Brynclygo, Cildyfnog*** ac adre.

Torri ryw chydig, ryw gae neu ddau ar y tro fydde ni, fydde'n amrywio o un i ddwy awr a hanner y dydd ymhob lle. Golygai hynny y byddem yn ymweld â rhai ffermydd hyd at hanner dwsin o weithiau yn y tymor oedd yn dipyn mwy o symud 'nôl a mlaen rhwng un lle a'r llall na phan oeddem yn teilo neu aredig. Rhaid cofio mai chwalwr a chribin wair y tu ôl

i geffyl fydde i'w drin mewn sawl lle, felly dim ond ychydig o wair ar y tro oedd yn bosib i'w gynaeafu beth bynnag. O leia mi oedd hyn yn golygu y gellid rhannu'r gwaith yn weddol deg ar adeg pan oedd pawb eisiau torri yr un pryd.

Roedd newidiadau mawr ar droed ym myd amaeth yn y cyfnod hwn. Pan oeddwn yn laslanc mi oedd oes y ceffylau yn dod i ben â'r tractor yn prysur gymeryd eu lle. Pan ddaeth y tractors gynta mi fydde drobar yn cael ei roi ar flaen y drol neu'r gribin yn lle llorpiau'r ceffyl. Ond buan y datblygodd y tractor ac o fewn chydig amser mi fydde angen prynu, nid yn unig y tractor ond ei blant o hefyd: yr arad a'r og ac offer eraill oedd yn ffitio ar ei gefn o yn bwrpasol.

Yn nhymor 1957, cychwyn torri gwair drwy fynd i hanner dwsin o lefydd rhwng Mehefin y 12fed a'r 17eg:

*June 12th – 15th, Mowing, R Micah, Machynlleth (2 awr)*
*June 14th, Mowing, Miss Jones, Croesllyn (1½ awr)*
*June 17th, Mowing, Evans Llwynffynnon (2 awr)*
*" " , Mowing, Hughes Top Pentre (1¼ awr)*
*" " , Mowing, Owens Pendref (1½ awr)*
*June 19th, 29th, Mowing, Jones Ogofach (3½ awr)*
*June 20th, Mowing, Miss Jones Croesllyn (1½ awr)*

Belio hefyd i rai oedd wedi torri eu gwair eu hunain. Cawsom fyrnwr *pick-up* Welger bychan yn 1954 oedd yn creu byrnau bychan fflat – tua 2 droedfedd o led, 3½ o hyd a ryw 1 droedfedd o uchder. Fuodd o ddim ganddon ni am fwy na thymor am fod cryn dipyn o alw am y gwasanaeth. Erbyn 1955 roeddem wedi cael Welger mwy, un oedd efo injan Petter diesl yn ffitio arno fo i droi'r byrnwr ac yn cael ei dynnu gan y Marshall (rhaid oedd cael yr injan Petter am nad oedd PTO ar y Marshall). Wedyn cawsom fyrnwr Massey Ferguson, ond am na chawsom lawer o hwyl ar hwnnw, dyma droi yn 1958 at felar Jones, Mk4 a thractor Nuffield. Dros y cyfnod hwn buom yn byrnu dros ardal fawr yn Nyffryn Dyfi – Machynlleth, Aberhosan, Melinbarhedyn, Llanwrin a hyd yn oed Talerddig. Roeddem yn codi 7 geiniog yr un am y byrnau, efo llinyn (12/- y bellan) yn ychwanegol. Dyma rai o gyfrifon byrnu 1957:

*June 17th, Pick-up baling, **Lewis Cefnparhedyn**, 430 bales*
*June 18th, Pick-up baling, **Fenwick, Llynlloedd**, 680 bales*
*June 18th – 19th, Pick-up baling, **Roberts, Furnace Farm**, 390 bales*

Dros y bythefnos nesa buom yn byrnu i ***Evans, Plaswrin*** (760 bales); ***Davies, Gwernstable*** (230 bales); Jenkins Ynysgreigiog (1726 bales, July 1, 2, 6, 9th); ***Parry Rhiwlas*** (336 bales) a ***Williams Penrhosmawr***, (910 bales, July 1, 3, 5th).

Rhwng y 29ain o Fehefin a'r 6ed o Orffennaf 1957 buom yn neidio yn ôl ac ymlaen i dorri bob yn ail rhwng Jones Maesperthi ac Evans Hirddol:

*June 29th, Mowing, **Jones Maesperthi** (1¾ awr)*
*" " , Mowing, **Evans Hirddol** (1 awr)*
*July 2nd, Mowing, **Jones Maesperthi** (2½ awr)*
*" " , Mowing, **Evans Hirddol** (2 awr)*
*July 3d, Mowing, **Jones Maesperthi** (1½ awr)*
*" " , Mowing, **Evans Hirddol** (1¼ awr)*

Ni fu llawer o waith wedyn hyd ddiwedd y mis oherwydd y tywydd mae'n debyg. Yna, rhwng y 29ain o Orffennaf a'r 5ed o Awst plwc arall o dorri, am ryw 1 – 1½ awr ar y tro i ***Jones Maesperthi*** (x2), ***Evans Hirddol*** (x2), ***Williams Caelloi*** (x2) ac unwaith yr un i ***Miss Jones Croesllyn*** a ***Iorweth Rowlands, Machynlleth***. Buom hefyd â'r Siderake at Iorwerth Rowlands (Awst 2il).

Bu'r belar allan am y tro ola ar yr 2il o Awst, mewn dau le: ***Iorwerth Rowlands***, 135 bales a ***Davies, Esq. Brynclygo***, 176 bales.

***(i'w barhau y tro nesa)***


# Lladd Gwair

Pwy ddarfu greu'r ymadrodd 'lladd gwair', tybed? Rwy'n deall ei fod yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin.

Ond cyn lladd y gwair, roedd rhaid ei dyfu. Fferm wrth y mynydd oedd y cartref, felly roedd cryn dipyn o'r tir yn anaddas i'w drin, y weirglodd a'r gweunydd yn addas i bori yn unig, a rhai o'r caeau i bori ac i wair.

Ar y caeau hyn rhoddwyd gwrtaith o'r domen dail ger y beudy. Llwyth ar y drol, a thra bod un yn gyfrifol am symudiad y drol, roedd un arall yn dosbarthu'r tail yn sypiau ar y cae. Crafwr maint fforch gyffredin fyddai ganddo, ond y dannedd wedi eu troi fel cribyn, yna byddai'r sypiau yn cael eu chwalu dros y cae gyda fforch gyffredin.

Nawr i ddod i'r caeau sydd yn addas i'w trin. Y flwyddyn gyntaf, aredig, er mwyn plannu tatws a chnydau eraill. Yr ail flwyddyn, plannu ŷd, a hefyd had gwair, gan y byddai'n cymryd dwy flynedd i'r gwair ddod. Welais i neb yn hau had gwair hefo'u dwylo, fel gyda'r ŷd, er enghraifft. Peiriant i'w wthio gyda llaw oedd gennym, - cafn hir ar ffrâm bren ysgafn, dwy goes ac olwyn tipyn o faint fel olwyn berfa. Roedd yna olwynion bach ar hyd y cafn hefo



C. D. Fenwick, Llynlloedd.

| | | | £ | s | d |
|---|---|---|---|---|---|
| August | 8th & 9th 1960. | | | | |
| | | Corn-cutting 2 binders total hours 17 hours @ 20/- per hr. | 17 | 0 | 0 |
| | | Twine used 13 balls @ 13/- each. | 8 | 9 | 0 |
| | | £ | 25 | 9 | 0 |

Brig. Gen L. Pugh "Cwmerau" Estate.

| | | | £ | s | d |
|---|---|---|---|---|---|
| Aug | 11th & 16th | Pick-up baling Total 630 bales @ 7d per bale. | 15 | 9 | 2 |
| Sept | 26 & 27th | Corn-cutting 7 hours @ 20/- per hr. | 7 | 0 | 0 |
| | | 2½ balls twine @ 13/- per ball. | 1 | 12 | 6 |
| | | £ | 24 | 1 | 8 |

E Thomas. HIRDDOL 1961 ACCOUNT.

| | | | £ | s | d |
|---|---|---|---|---|---|
| Feb. | 28th | Ploughing grassland for potatoes 1 hr. | | 15 | 0 |
| April | 24th | Ploughing single furrow. 2 tractors 7 hrs & 5½ hrs. | | | |
| April | 28th | " " " 2 tractors 6½ hrs each. | | | |
| May | 2nd | .. .. .. 5 hours. total 30 hrs, @ 15/- | 22 | 10 | 0 |
| May | 1st | Digging for Potatoes 1 hr. | | 15 | 0 |
| May | 22nd | Digging 7 hrs 18/- per hr. | 6 | 6 | 0 |
| May | 10th | Manure loading & spreading 8 hrs. | 12 | 0 | 0 |
| May | 11th | Ploughing stubble 6 hrs. | 4 | 10 | 0 |
| May | 12th | Digging 2 hrs. | 1 | 10 | 0 |
| May | 23rd | Hauling & spreading 6 tons slag | 5 | 10 | 0 |
| | | | 53 | 16 | 0 |
| July | 1st 3rd 4th 5th 6th | Mowing 7½ hours @ 20/- per hr | 7 | 10 | 0 |
| | | Wool to Machynlleth 10/- | | | |
| | | | 60 | 16 | 0 |
| | | | | 10 | 0 |
| | | | 61 | 16 | 0 |

*Tudalen o lyfr cyfrifon teulu Lewis, Gallt y llan, Penegoes, 1960-61*
*(gw. 'Atgofion am Gontractio' oddimewn, tud. 18)*

**FFERM A THYDDYN**
**Golygydd: Twm Elias,**
**Ty'n Pant, Lôn Pant y Gog, Nebo,**
**Caernarfon LL54 6EA**
**Cyhoeddir gan:**
**Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Cymru.**

9 771363 658009 51